PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 154 Rhif 40 Hydref 7, 2021 50c.

## Gofalaeth Providence, Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych

Pleser o'r mwyaf a llawenydd pur i mi oedd derbyn un ar ddeg aelod i eglwys Providence mewn oedfa gymun ar ddydd Sul 5 Medi. Daeth chwech o bobl ifainc yn gyflawn aelodau a daeth pump, yn cynnwys y gweinidog, yn aelod trwy lythyr. Bu'r chwech ifainc yn ffyddlon iawn i'r ysgol Sul pan yn blant ac yn bobl ifainc, a rhaid diolch i athrawon Providence sydd wedi rhoi sylfaen mor wych iddynt trwy ddysgu am ein gwaredwr Iesu Grist.

Rhaid dweud i mi deimlo naws hyfryd yn yr oedfa gyda'r cyfyngiadau wedi llacio rhywfaint o safbwynt rhif y gynulleidfa. Hyfryd oedd gweld teuluoedd cyfan yn cymuno gyda ni ac yn wir, roedd cynulleidfa deilwng iawn yn bresennol.

Wedi'r oedfa, cawsom barhau yng nghwmni ein gilydd dros baned, a braf oedd cael cyfle i sgwrsio gyda'n gilydd a chymdeithasu.

**Parchedig Catrin Ann**



## COP26: Cenedl ddrwg a da?

Mae Tsieina, llosgwr glo mwya'r byd, wedi cyhoeddi na fyddant yn adeiladu mwy o bwerdai glo mewn gwledydd eraill. Mae dau o fanciau mawr Tsieina wedi arllwys dros $50 biliwn i mewn i brosiectau i godi pwerdai sy'n llosgi glo mewn dwsin o wledydd. Yn ogystal â gwledydd yn Asia fel Fietnam a Bangladesh, fe arianwyd pwerdai yn Ne Affrica, Iwcrân a Thwrci.

Tra bod hynny i'w groesawu, mae Cynllun Pum-Mlynedd Tsieina, y cytunwyd arno yn gynharach eleni, yn cynnwys y bwriad i ehangu codi pwerdai sy'n llosgi glo yn y wlad honno am flynyddoedd i ddod.




## Capel Bryngwenith, Henllan, ger Castellnewydd Emlyn, Ceredigion

Ar ôl misoedd anodd a heriol a llawer o ymdrechu caled, cwblhawyd y gwaith o ddiweddaru festri capel Byngwenith er mwyn iddo fod yn adnodd cyfoes a deniadol ar gyfer yr eglwys a'r gymdogaeth. Gan fod y neuadd bellach wedi ei gweddnewid y gobaith yw y bydd llawer mwy o ddefnydd arni ac y bydd yn gaffeiliad mawr i'r eglwys wrth bontio gyda'r gymuned.

Yn y lluniau fe welir y gweddnewidiad syfrdanol a fu yn y festri yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer yr anabl, cegin, seti a charped newydd. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n rhan o'r cynllun cyffrous hwn ac i'r eglwys am ei gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Hefyd ar achlysur yr ail agor fe ddadorchuddiwyd

*parhad ar y dudalen gefn*



*Maldwyn Lewis a'i briod y Parchg Carys Ann, gweinidog Bryngwenith, y cynghorydd Paul Hindge, a agorodd y Festri ar ei newydd wedd yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion, John Adams, a fu o gymorth amhrisiadwy yn yr ail wneud, Anne Lewis, ysgrifennydd Bryngwenith.*

# ‘Mae’r ffydd sydd gennym yn Nuw yn cael ei ddangos yn y math o bobl yr ydym.’

Er na ddaeth ‘pêl-droed adre’ y tro hwn eto (er mawr ryddhad i gefnogwyr tîm Cymru mae’n siŵr), mae’n debyg bod agwedd ac ymddygiad rheolwr a chwaraewyr tîm Lloegr yn ystod Euro 2020 wedi gwneud argraff ar lawer. Y modd y bu iddynt gefnogi ‘Mae Bywydau Du o Bwys’ a phenlinio cyn gemau fel protest yn erbyn anghyfiawnder hiliol, a hynny yn wyneb sen ac anfri nifer o’r cefnogwyr, heb sôn am ambell AS a ddylai fod yn gwybod yn well. Yn yr un modd eu hymateb unol i’r llysnafedd hiliol a anelwyd at rhai o’r chwaraewyr croenddu a fethodd giciau o’r smotyn.

## Pwysigrwydd ffydd

Mewn erthygl yn un o’r papurau Sul yn ddiweddar soniwyd pa mor allweddol yw ffydd i nifer o’r chwaraewyr hyn, gan roi iddynt deimlad cryf o ddyletswydd tuag at eraill, yn arbennig y bregus a’r anghenus. Mae Marcus Rashford, Raheem Sterling a Bukayo Saka yn agored am eu ffydd. Mae Saka, sy’n aelod o Eglwys Bentecostaidd yn Uxbridge, yn manteisio ar bob cyfle i sôn am yr hyn mae’n credu. Dywedir bod Sterling yn darllen ei Feibl yn yr ystafell newid cyn sesiynau hyfforddi, tra bod Rashford yn sôn yn gyson am ddylanwad ei fagwraeth, ac yn arbennig ei fam, Mel, sy’n Gristion defosiynol. Mae’r tri phêldroediwr yn barod iawn i gydnabod bod y talentau a’u galluogodd i gyrraedd y brig yn eu camp yn dod oddi wrth Dduw, a bod breintiau o’r fath yn cario cyfrifoldeb i gynorthwyo eraill.

## Ffydd weithredol

Mae’r erthygl yn dyfynu, Selina Stone, darlithydd mewn coleg diwinyddol yn Llundain, sy’n arbenigo ar Gristnogaeth Bentecostaidd a’i effaith ar faterion o gyfiawnder cymdeithasol. Dywed hi fod y tri pheldroediwr yn gweld ffydd ac ysbrydolrwydd yn greiddiol i’w bywydau, rhywbeth sy’n deillio o’u magwraeth gyffredin o fewn y traddodiad Cristnogol croenddu ym Mhrydain. Yn wahanol i rai traddodiadau sy’n gweld ffydd fel mater o gydsynio a chyfres o ddatganiadau crefyddol, ‘darllen y litwrgi, adrodd y credoau a chytuno â’r athrawiaeth,’ mae’r traddodiadau hyn yn rhoi’r pwyslais ar ffydd wedi ei ymgorffori, ‘y ffordd mae person yn byw’r hyn a ddywedir yn yr oedfa ar y Sul a sut mae ei ffydd yn ymateb i anghenion y bobl o’u cwmpas.’

## Gwasanaethu cymdeithas

Mae Stone ac eraill yn dadlau fod y pwyslais arbennig hwn a’i wreiddiau ym mhumdegau’r ganrif ddiwethaf, pan symudodd nifer o bobl o’r Caribî i Brydain, y genhedlaeth *Windrush* fel y’u gelwir. Roedd llawer ohonynt yn Gristnogion brwd oedd yn chwilio am eglwysi i’w mynychu, ond yn aml yn cael croeso llugoer gan yr eglwysi traddodiadol. Dyma gyfnod ffurfio’r Eglwysi Mwyafrifol Croenddu (Black Majority Churches) a ddaeth i ymgorffori’r gwytnwch cynulliadol hwnnw sy’n aml yn nodwedd o gymunedau sy’n brwydro i oroesi, trwy helpu ei gilydd. Gweinidogion yn gweithredu fel gweithwyr cymunedol ac yn codi llais dros eu cymunedau, ac eglwysi yn darparu gwasanaeth cymdeithasol yn ogystal â chrefyddol.

## Eglwys Saka

Eto yn ôl Stone, ‘Mae’r eglwysi hyn yn ffynonellau o gyfalaf cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal â bod yn fannau ar gyfer adnewyddiad ysbrydol. Ynddynt fe geir gwybodaeth am ddarpariaeth tai yn lleol a chyfle i ymuno ag undebau credyd anffurfiol er mwyn benthyg arian ar y cyd. Mae eglwys Saka, Canolfan Bentecostaidd Kingsborough, yn cynnal meithrinfa, banc bwyd ac yn cynnig cyngor a chymorth i rai sydd am fentro mewn busnes. Cafodd ymgyrch Marcus Rashford ar dlodi bwyd plant a’i alwad am ddarparu prydau bwyd am ddim yn Lloegr yn ystod y gwyliau ysgol dipyn o sylw gan y cyfryngau, ac fe arweiniodd at newidiadau polisi sylfaenol gan Lywodraeth y DU. Mae e wedi dweud, ‘mae’r ffydd sydd gennym yn Nuw yn cael ei ddangos yn y math o bobl yr ydym.’



## Joel Edwards



Wrth ddarllen am y pwyslais Pentecostaidd ar ‘ffydd yn ymateb i anghenion y bobl o’u cwmpas’, dyma gofio sylw a glywais flynyddoedd yn ôl mewn Cynhadledd Cymorth Cristnogol, ‘Os na allwn ni roi i bobl yr hyn maen nhw’n gwybod sydd ei angen arnynt, sut allwn ni ddisgwyl rhoi iddyn nhw’r pethau na wydden nhw eu bod eu hangen.’ Geiriau wnaeth argraff arna i ar y pryd, a geiriau rwy wedi eu dyfynnu lawer gwaith ers hynny. Joel Edwards, Cristion o’r traddodiad Pentecostaidd ac arweinydd croenddu cyntaf y Gynghrair Efengylaidd, a ddwedodd y geiriau hynny, a phan es ati i ‘googlo’ ei enw i weld beth oedd ei hanes erbyn hyn, dyma ddarllen y newydd trist iddo farw ddiwedd Mehefin eleni ag yntau ond yn 70 oed.

## Ffydd chwyslyd

Yn un o’r teyrngedau a dalwyd iddo soniwyd am gyngor a gafodd y teulu wrth adael Jamaica i ddod i Brydain yn 1960. ‘Fe’n rhybuddiwyd ni gan Gristnogion adref i gofio mai dim ond Pentecostaliaid croenddu gellid ymddiried ynddynt i fod yn wir Gristnogion.’

‘Roedd pawb arall o dan amheuaeth,’ meddai Edwards, ‘hyd yn oed y Pentecostaliaid gwyn. Doedd eu pregethau ddim yn ddigon hir a doedden nhw ddim yn chwysu na neidio na gwaedu digon!’ Mae’n defnyddio’r stori i ddangos sut y bu iddo newid ei feddwl ymhen ychydig flynyddoedd o fod yn y DU.

Rwy’n hoffi’r syniad o ffydd sy’n cynhyrchu chwys! Ffydd ar waith yw hynny. Ffydd sy’n ymdrechu’n galed ac yn gweithio’n ddiflino i gyflawni gwaith Duw yn y byd.

**Robin W. Samuel**

Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 7 2021 RHIF 32

## Plethu Lleisiau Cymru a Bryniau Casia – CD newydd gan Gareth Bonello ar y cyd ag artistiaid o gymuned Khasi Gogledd-Ddwyrain India

Bu gen i ddiddordeb mawr yng nghenhadaeth dramor y cyfundebau Cymreig erioed. Roedd fy nhad, y Parchedig Huw Jones, yn flaenllaw yn yr awydd i beidio â gorllewineiddio brodorion meysydd cenhadol y Presbyteriaid. Yn ail, a minnau yn fy arddegau, roedd Coleg y Bala ar y pryd yn storfa i ddelwau *voodoo* a ddeilliodd o ryw faes cenhadol neu'i gilydd, a'r genhades Gwen Rees Roberts yn byw yno yn y 70au ac yn rhannu'i phrofiadau hefo fi. Yn olaf, roedd gen i gymaint o ddiddordeb fel mod i wedi dechrau ymchwilio i ddylanwad (anffafriol) cenhadon ar ddiwylliant brodorol y meysydd cenhadol mewn sawl gwlad.

Yn anffodus, daeth Robert Mugabe i lywodraethu Zimbabwe yn 80au'r ganrif ddiwethaf. Roedd archif fawr llwythau brodorol Affrica yn Harare ar y pryd ac roedd hi'n beryglus mentro yno. Er bod yna agwedd anffodus o ryw sêl i ddiwyllio brodorion wedi bod ynghlwm wrth genhadaeth rhai yn y gorffennol, o leiaf mae yna dystiolaeth fod y Cymry, efallai oherwydd eu statws hwythau, wedi bod yn fwy gofalus wrth gyflwyno'u neges yn y maes cenhadol ym Mryniau Casia, India. Bu bron i'r cenhadon fynd i ddyfroedd dyfnion, fodd bynnag, gan fod mudiad gwarchod traddodiadau Khasi, Seng Khasi, wedi'i sefydlu ym mhentref Smit ym Mryniau Casia yn 1899, fel adwaith i'r modd y bu i Gristnogaeth ac arferion Gorllewinol gael eu cyflwyno mewn ffordd ansensitif ar y pryd.

Gwyddwn fod y cerddor Gareth Bonello, un y mae gen i edmygedd o'i waith, wedi bod yn India a'r prosiect Khasi–Cymru wedi deillio o'i breswyliadau yn Shillong, prifddinas talaith Meghalaya. Cyn hynny, roedd ei waith yn China, a'i albwm *Y Bardd Anfarwol* wedi cael derbyniad gwresog. Drachefn yn India, bu Gareth yn gweithio ochr yn ochr â nifer o arbenigwyr yn eu meysydd, a deilliodd yr albwm *Sai-thaiñ ki Sur* (Plethu Lleisiau) o'i gyfnod yno.

Er bod yr albwm yn ddigon arbrofol o ran yr iaith gerddorol a'i gynhyrchiad, mae rhan bwysig o'r deunydd yn deillio o gysylltiad Cymru â'r maes cenhadol. Dichon fod y cysylltiad hwn yn ddieithr i'r byd cerddorol byd-eang, ond mae'r Cymry, yn enwedig y to hŷn 'capelaidd' yn fwy cyfarwydd â'r




cysyniad. Mae'r albwm yn medru eistedd yn daclus ar ddwy stôl, heb syrthio o gwbwl rhwng y ddwy. Mae'n medru boddhau clustiau'r cerddorion 'global' ond hefyd yn dod â'r dinc yna o Gymreictod i glustiau Cymry fel fi sydd wedi tyfu i fyny'n clywed corau afieithus o'r ardal yn canu emynau Cymreig. Er enghraifft, mae'r trac ar yr albwm 'Wel, Bachgen Ifanc Ydwyf' yn rhannu'r gerddoriaeth â'r emyn-dôn 'Bryniau Casia'. Mae honno'n aml yn cael ei hadnabod fel y dôn ar eiriau'r emyn 'Y Gŵr wrth Ffynnon Jacob'. Ond mae'r organ, a fyddai, mae'n debyg, wedi cyfeilio i'r emyn, wedi'i disodli gan offeryn y *Duitara*, math o gitâr 4 tant a wnaed i Gareth gan grefftwr lleol yn un o'r marchnadoedd o gwmpas Shillong. Clywir sawl offeryn taro lleol ar y trac hwn hefyd, yn rhoi blas mwy dwyreiniol ar y gân werin Gymreig.

Gan mai'r uchod oedd y trac cyntaf i mi wrando arno, roedd gweddill yr albwm yn argoeli'n brofiad cyffrous. Mae'r emyn-dôn 'Bryniau Cassia' y cyfeiriwyd ati uchod yn ymddangos ar drac arall yn dwyn yr un enw. Gan fod hon yn cael ei chofnodi fel 'Hen Alaw' ac yn ymddangos yn *Y Salmydd*, casgliad o emynau a gyhoeddwyd dan olygyddiaeth D. Emlyn Evans ac eraill yn 1892, cyfyd cwestiwn difyr p'un ddaeth gyntaf: y gân werin neu'r emyn-dôn? Gan fod y maes cenhadol yn yr ardal hon gan y Methodistiaid Calfinaidd yn cael ei gofnodi rhwng tua 1841 ac 1969, mae'n bur debyg mai'r gân werin Gymreig a gafodd ei hallforio yno, gan gofio ar yr un pryd fod nifer o emyn-donau'r cyfnod yn deillio o ffynonellau cynhenid cynharach.

Mae'r trac 'Pererin Wyf' yn cynnwys alaw hyfryd, leddf o eiddo Gareth Bonello a 'Cwyn yr Afon' yn debycach i waith cynharach Gareth ar ei ddau albwm *Y Bardd Anfarwol* a *Ruins / Adfeilion*. Mae hefyd wedi cydweithio â cherddorion traddodiadol o'r ardal sy'n dod â'u harbenigedd eu hunain i'r gymysgedd. Clywir yr offerynnau *Muiñ* a *Tangmuri* (offerynnau chwyth traddodiadol) ar y trac byw 'Pahambir', a chynhwysir dau drac byw arall hefyd ar yr albwm, yn gyforiog o flas yr ardal. Yn wir, clywir yr adar uwchben hyd yn oed ar y trac byw 'Bryniau Cassia'.

Fel un sydd wedi cyfansoddi caneuon dan ddylanwad beirdd o'r blaen, mae Gareth Bonello hefyd wedi cyfansoddi cân o'r enw 'Soso & Waldo', enwau beirdd o Khasi a Chymru, a chlywir adleisiau o'r gerdd 'Cofio' gan Waldo yn y gân hyfryd hon. Mae'r alaw yn dwyn i gof rai brawddegau o'r gân werin Gymreig 'Cariad Cywir', ac yn yr un modd gymalau o 'Y Deryn Du a'i Blufyn Sidan' yn y gân 'I Shakyllia'. Cydweithrediad arall yw'r trac 'Hediad Ka Likai', lle clywir trac offerynnol hyfryd gan Gareth ar y gitâr a chyfraniad ar offeryn chwyth arall, y *Besli*. Mae'r gân 'To the Men with Hate Speech on their Lips' yn fwy arbrofol yn gerddorol gan ddefnyddio'r gair llafar ac yn cyfeirio at briodas orfodol ymhlith merched yr ardal. I gloi'r albwm, clywir y gân 'Alawon Cenhaty', sy'n awgrymu fod yna nifer o alawon dawns wedi'u hallforio a'u clywed yn y maes cenhadol.

I rai sy'n gyfarwydd â cherddoriaeth India, efallai fod absenoldeb offerynnau fel y *sitar* neu'r *sambura* yn peri dryswch. Mae hyn yn fwriadol gan mai offerynnau lleol i'r ardal hon yn benodol sy'n cael eu chwarae ar yr albwm. Efallai mai dwyn ynghyd draddodiadau lleiafrifol Khasi a Chymru yw cryfder yr albwm hyfryd hon ac mae'r elfen o osgoi gor-gynhyrchu technegol hefyd yn cyfrannu at ei swyn a'i symlrwydd. Mae'n gofnod hanesyddol yn cyfeirio at gyfnod y genhadaeth dramor a'r cysylltiad Khasi–Cymru ond mae hefyd yn brofiad cerddorol gwerth chweil ddylai apelio'n llawer ehangach na hynny.

*Sioned Webb*
*Llandderfel*

**Sai-thaiñ ki Sur (the Weaving of Voices/ Plethu Lleisiau) gan Gareth Bonello. CD, Naxos World, £10.00; https://thegentlegood.com/cy/product/sai-thain-ki-sur-the-weaving-of-voices-cd**

# Cyflwyno 20 Medal Gee yn 2021

Bob blwyddyn cyflwynir medalau Thomas a Susannah Gee i ffyddloniaid yr ysgol Sul. Mewn dyddiau arferol cynhelir seremoni arbennig yn y de a'r gogledd, er mwyn eu cyflwyno i'r selogion hynny. Fel arfer, bydd cynrychiolwyr o deulu Thomas Gee yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, gyda Dorothy yn teithio o Ganada bob blwyddyn ar gyfer y cyflwyno. Fodd bynnag, eleni, nid yw cynnal cyfarfod cyhoeddus wedi bod yn bosib, ond yn hytrach cyflwynir y medalau yn lleol, mewn nifer o ddigwyddiadau llai, un ai mewn capel neu yng nghartefi'r sawl sy'n derbyn medal.

Mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn falch o gyhoeddi enwau'r rhai a fydd yn derbyn medal eleni, ac yn eu llongyfarch yn wresog iawn:

Gogledd:
Iola Margaret Roberts, Jerwsalem, Mynydd Mechell, Ynys Môn
Grace Jones, Carmel Penysarn, Ynys Môn
Olwen Owen, Carmel Penysarn, Ynys Môn
Brenda Gibson, Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam
Gwenfron Jones, Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam
Llinos Powell Jones, Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam

De:
Thomas Alan Campden, Soar, Cwmpengraig, Pen-boyr
Dewi T Ll Davies, Aberduar, Llanybydder
Janet Evans, Noddfa, Llanbedr Pont Steffan
Vera Lewis, Eglwys St Tysul, Llandysul
Daniel Keith Williams, Capel Newydd, Llanddarog
Marian Margaret Williams, Capel Newydd, Llanddarog
Alun Lloyd Voyle, Capel Newydd, Llanddarog
Margaret Beryl Voyle, Capel Newydd, Llanddarog
Alun Williams, Capel Newydd, Llanddarog
Lily May Thomas, Capel Penybont, Caerfyrddin
Bethan Eurddydd Thomas, Gellimanwydd, Rhydaman

Cyflwynir tair medal gan Gyngor yr Ysgolion Sul i unigolion a wnaeth gyfraniad arbennig i waith plant ac ieuenctid yng Nghymru, ac eleni cyflwynir medalau i'r canlynol:


Mr Nigel Davies, Caerdydd
Parch Catrin Roberts, Caerdydd
Parch Ifan Roberts, Caerdydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i bob un o'r uchod.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor yr Ysgolion Sul*


**'Un o gyhoeddiadau pwysig 2021'**

**Cyfrol arloesol, arbennig o hardd, wedi'i rhifo**
**clawr caled, 231 tudalen, 104 o luniau**




Cyfrol yn diolch o galon i bob meddyg
a holl weithwyr y Gwasanaeth Iechyd,
ac i bawb sy'n rhannu eu cariad a'u gofal dros eraill

Nid bomiau i ladd,
Ond iechyd i'r claf.
(Pryderi Llwyd Jones)

Unrhyw elw i Ofal Dydd Waengoleugoed, ger Llanelwy,
a Stafell Fyw, Caerdydd

**Cyhoeddiadau'r Gair; pris: £15**





S4C **Sul, 10 Hydref, am 7:30yh –**
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
Bydd Lisa'n dod i adnabod y cerddor Lisa Jên yn ei bro enedigol, Dyffryn Ogwen. Cawn glywed pam mae ei chynefin yn ardal y chwareli yn sylfaen i'w llwyddiant ac yn ysbrydoliaeth i'w chreadigrwydd a'i chaneuon.

BBC radio cymru
**Sul, 10 Hydref, 7:30yb a 4:30yp –**
***Caniadaeth y Cysegr***
Yr wythnos hon, yn y gyntaf mewn cyfres o ddwy raglen, bydd Elen Ifan yn bwrw golwg ar hanes enwau rhai o'n hemyn-donau.

**Sul, 10 Hydref – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp**
Gwasanaeth dan ofal Richard Cleaves, Pen-y-bont ar Ogwr

# Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

**Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwysi yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.**

## 4 Gweinidogaeth

"Ffrwyth a'i wraidd ym medd Crist" yw'r weinidogaeth Gristnogol, yn ôl Dr John Owen (*Works,* IV, 190). Y peth a olygai yw mai rhodd yr Un a fu ufudd hyd angau ac a ddyrchafwyd mewn buddugoliaeth i wisgo'r "enw yr hwn sydd goruwch pob enw" yw'r gweinidogaethau yn yr Eglwys (Philipiaid 2:5–11; Effesiaid 4:8–10). Cyfunir deubeth yn y disgrifiad hwn. Ar y naill law y mae pob swydd a gwaith yn yr Eglwys yn rhannu darostyngiad Iesu Grist. "Ar agwedd gwas" y mae pob swyddog i ymddangos. Ar y llaw arall, y mae'n gwasanaethu mewn llawenydd am ei fod yn cael gwaith gan Arglwydd na all mileindra dynion nac angau ei orchfygu. Diolch i'w fuddugoliaeth Ef, mae'r diwrnod pan blyg pob glin i Anfonedig Duw'n dechrau gwawrio.

Bu dadlau maith ymhlith Cristnogion ynglŷn â'r ffordd briodol i esbonio'r cyfeiriadau yn y Testament Newydd at wahanol swyddogion – apostolion, efengylwyr, athrawon, henuriaid, esgobion a diaconiaid. A thrist yw gorfod cydnabod mai ymarferion mewn balchder dynol yw llawer iawn o'r taeru. Mwy buddiol a pherthnasol inni'n awr na cheisio trafod y cwestiynau astrus hyn yw canolbwyntio ar natur ac amrywiaeth y doniau gwasanaethgar a rydd Crist i'w Eglwys.

Trwy'r Ysbryd Glân y mae'r Arglwydd Iesu'n arwain ei Eglwys ar ôl ei esgyniad. Fel bob amser, y mae Ef yn ei llywodraethu trwy ei gwasanaethu. Ei roddion yw awenau ei lywodraeth. Teyrnas gras yw'r rhan honno o'i deyrnas a geir mewn eglwysi. Gwelwn yn yr Actau fel yr oedd yr Ysbryd yn arwain yr Eglwys i neilltuo Barnabas a Saul i weinidogaeth arbennig (Actau 13:2) a deil hyn yn wir am bob gwir weinidogaeth. Bu arweinwyr eglwysig trwy'r canrifoedd yn awyddus dros ben i sianelu'r gwaith hwn o eiddo'r Ysbryd. Lawer tro tybiwyd mai'r unig weinidogaeth ddilys oedd honno yn cydymffurfio â rheolau'r enwad. Ond ni lwyddwyd erioed i lyffetheirio rhyddid yr Ysbryd â deddfau. Pan oedd y rheolau sefydlog yn ei gwneud yn eglur i bawb nad oedd Howel Harris yn weinidog dilys yn Eglwys Iesu Grist, fe'i defnyddiwyd yn nerthol gan yr Ysbryd Glân yn nannedd y rheolau. A hyd yn oed yn y cyfnodau tywyllaf pan oedd arweinyddion swyddogol yr Eglwys yn gysglyd ac anghyfrifol, bu gan yr Ysbryd Glân ei ffyddloniaid yn cadw'r fflam Gristnogol ynghyn.

Y peth a'n tery gyntaf am y weinidogaeth Gristnogol yn y Testament Newydd yw ei hamrywiaeth hi. Yr ydym mor gyfarwydd â chyfyngu'r teitl "gweinidog" i un swyddog yn ein heglwysi fel mai o'r braidd y byddwn yn synio hyd yn oed am ddiaconiaid a blaenoriaid fel gweinidogion. Y mae'r darlun a rydd Paul o fywyd yr Eglwys Fore mor ddiarth inni erbyn heddiw fel bod rhaid wrth ymdrech galed ar ran y dychymyg i bortreadu'r hyn a welai ef. Wrth ysgrifennu at y Corinthiaid daw'n agos iawn at ddweud fod pob aelod eglwysig yn weinidog: "Eithr chwychwi ydych gorff Crist, ac aelodau o ran." Ac o'r aelodau hyn gosododd Duw rai'n apostolion, eraill yn broffwydi, eraill yn athrawon, rhai'n gwneud gwyrthiau, eraill yn gallu iacháu, rhai'n gynorthwywyr, rhai'n llywodraethwyr a rhai'n feistri ar siarad â thafodau. A phawb yn cael eu hannog i ddeisyf y ddawn i garu, sy'n rhagori ar yr holl ddoniau eraill (1 Corinthiaid 12:27–31). Wrth ymyl yr amrywiaeth afradlon yma, y mae ein heglwysi ni'n edrych yn sobr o dlawd a marwaidd.

Nid hawdd erbyn heddiw bod yn sicr beth yn union oedd natur y doniau y mae'r Apostol yn eu disgrifio yn y geiriau hyn. Yn gynt yn yr un bennod, rhydd restr dipyn yn wahanol o ddoniau. Dechreua gydag "ymadrodd doethineb". Dyma'r ddawn i ddeall ac i esbonio'r "ddoethineb guddiedig, yr hon a ragordeiniodd Duw cyn yr oesoedd i'n gogoniant ni" (1 Corinthiaid 2:7). Ac nid yw'n ddim amgen na'r ddawn i feistroli cynnwys yr Efengyl a dysgu ei harwyddocâd i eraill. A'r ddawn nesaf yw "ymadrodd gwybodaeth". Nid yr un peth yw bod yn ddoeth â bod yn wybodus ond mae'n rhaid wrth y ddau ym mywyd cyflawn eglwysi. Rhoir i rai ddawn ffydd. Wrth gwrs, nid oes neb yn Gristion heb ffydd yng Nghrist ond mae'r Ysbryd yn cynysgaeddu'r Eglwys hefyd â phobl sy'n nodedig oherwydd mawredd a chryfder eu ffydd – er mawr galondid i eraill gwannach. Nid dibris yn yr Eglwys gyflwr iechyd yr aelodau a chan hynny ymddengys dawn iacháu yn y rhestr. Ac er mawr ddychryn i bawb modern a gwyddonol ei feddwl y mae dawn gwyrthiau i'w chael hefyd. A phroffwydoliaeth, fel y gwelsom wrth gyfeirio at Agabus. Cwbl angenrheidiol i ffyniant yr Eglwys yw'r ddawn i wahaniaethu rhwng ysbrydoedd a'i gilydd. Ac y mae i'r ddawn i siarad â thafodau ei lle'n ogystal.

Wrth ddarllen y bennod hon (1 Corinthiaid 12) clywir fel cytgan fawreddog bwyslais mynych yr Apostol mai'r un Ysbryd Glân sy'n rhoi'r holl amrywiaeth wasanaethgar hon i'r Eglwys. Yn Effesiaid 4, adn 11, ceir rhestr fer o swyddogion, sef apostolion, proffwydi, efengylwyr, ac athrawon (neu fugeiliaid – am un swydd y mae'n sôn). Ac yna ychwanega eu bod wedi eu rhoi gan Grist "I berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist" (adn 12). Ymddengys oddi wrth hyn mai diben y swyddogion a enwyd yw meithrin doniau gwasanaethgar y gynulleidfa oll fel bod pawb yn dod fwyfwy'n "weinidogion".

Ciliodd ein diddordeb yn yr Ysbryd Glân gymaint i'r cefndir fel nad ydym ar ein gwyliadwriaeth am bobl a ddoniwyd ganddo i'w wasanaethu yn y dyddiau hyn. Peidiwn ar yr un pryd â thybio fod pob dawn naturiol yn ddawn yr Ysbryd Glân. Y mae llawer un gyda doniau naturiol cyfoethog wedi sarnu eglwys am nad oedd neb wrth law â'r ddawn i "wahaniaethu'r ysbrydoedd" a dweud beth oedd yn ffrwyth balchder personol a beth oedd o Dduw. Heb ddoniau wedi'u heneinio gan yr Ysbryd Glân, nid oes "adeiladu corff Crist" yn digwydd. Yn hytrach ei ddolurio. "Nid yw creu gweinidogaethau gyda threfn allanol a seremonïau, heb y grasusau i adeiladu'r eglwys ond naddu pren â chynion, ei lyfnhau â phleini, a'i osod ar ei draed fel delw i'w addoli," meddai John Owen (*Works,* IV, 494). Yr unig ddilysrwydd mewn gweinidogaethau y mae'n werth poeni amdano yw fod yr Arglwydd Iesu'n ei arddel trwy ei Ysbryd.

Darlleniadau: 1 Corinthiaid 12; Effesiaid 4:8–11.

Llyfrau:

T. W. Manson, *The Church's Ministry,* pen. II a III; P. T. Forsyth, *The Church and the Sacraments* (arg. 1947), pen. VII; E. Schweizer, *Church Order in the New Testament* (S.C.M., 1961), pen. XXIV; H. Conzelmann, *An Outline of the Theology of the New Testament* (S.C.M., 1969), pen. XXXII; George Johnston, *The Doctrine of the Church in the New Testament* (1943), 99–101, 126–132; Daniel T. Jenkins, *The Gift of Ministry* (1947).

# Colofn Geir-iau – Gwe Crist

Mae yna un trychfil bach yr adeg hon o'r flwyddyn sy'n cilio i gynhesrwydd ein tai. Un bach iawn ydyw, gyda'r rhai mwyaf cyffredin yn y wlad hon yn llai na maint llaw plentyn. Er hyn, mae gan lawer o bobl eu hofn nhw. *Arachnophobia* yw'r enw ar yr ofn hwn. Er taw bach ydynt, mae'r corff blewog, y coesau niferus a'r llygaid bach yn gwneud i ni deimlo'n anghyffyrddus. Gallant symud ar gyflymdra o 0.5 metr yr eiliad. Yn ôl biolegwyr, mae yna 38,000 math o'r creadur bychan hwn yn fyd-eang, ac os yr hoffech fyw hebddynt, byddai'n rhaid mudo i Antartica i fyw gan taw dyma'r unig gyfandir lle nad yw'r creadur yn cynefino.



### Gwers

Ddyfaloch chi? Ie, yr hen gorryn sydd dan sylw. Y rheswm maen nhw'n dod i mewn i'n cartrefi'r adeg hon o'r flwyddyn yw er mwyn dod o hyd i bartner. Maent yn cael eu denu gan y gwres. Petawn i'n gweld corryn, fe fydden i eisiau cael ei wared e'n syth! Felly mae'r risg o erledigaeth neu hyd yn oed farwolaeth yn fawr iawn i'r corryn bach. Nid yn unig wrth ei gweld nhw'n rhedeg ar hyd y carped, ond maent hefyd yn creu gwe pry cop (neu *cobwebs* i chi a fi) sy'n medru bod yn boen mawr wrth geisio cadw tŷ.

### Gweiddi

Ond er ein bod ni yn llawer mwy o faint na'r corryn bach, pam felly ein bod ni cymaint o'i ofn. Petrusais dros hyn yn ddiweddar. Pam fy mod i'n gweiddi a sgrechian o weld y corryn ar lawr? Beth all e wneud imi? Yr ateb a gefais oedd am ei fod yn greadur ychydig yn anghyffredin. Gwahanol. Unigryw. Ac er ei fod yn fach, gall adael stamp mawr wrth greu gwe ar draws y tŷ a chreu mwy o gorynod bach.

### Gweinidogaeth

Person oedd yn achosi ofn oedd Iesu. Er taw un person ydoedd, roedd ei bresenoldeb a'i weithredoedd yn achosi anghyfforddusrwydd ymysg y bobl. Y bobl a'r awdurdod mwyaf. Doedd ysgrifenyddion y gyfraith yn Jerwsalem ddim yn hoff ohono oherwydd ei natur. Natur oedd yn groes i draddodiad eu crefydd. Dysgodd Iesu'r bobl fod Duw yn bresennol ymhob man trwy ddod i'r byd a rhannu'r ddaear gyda hwy. Dysgodd nad oedd Duw'n byw'n unig y tu ôl i lenni'r deml, ond yn hytrach roedd yn byw ymysg ei bobl ac yn clywed eu gweddïau lle bynnag yr oeddynt. Pwysleisiodd taw Efe oedd y deml.

Fel y corryn yn cael ei ddenu gan wres y tŷ, roedd Iesu'n cael ei ddenu i fod ymysg pobl, i'w haddysgu a'u caru. Doedd Iesu ddim yn mynd i adael i'r bobl awdurdodol o fewn y Gyfraith i'w reoli. Roedd yno i gyflawni dyletswydd, a'r dyletswydd hwnnw oedd talu pris ein pechod. Oen Duw yn marw ar Galfaria trosom ni. Roedd yno er mwyn corddi'r dyfroedd. Deffro cenedl oedd yn dilyn traddodiad a threfn awdurdodol oedd yn groes i ewyllys Duw.

### Gwefreiddiol

Ond er iddo farw, fe atgyfododd. A'r hyn sy'n wych yw ei fod Ef dal yma heddiw. Mae'n fyw hyd heddiw. Mae'r we a gafodd ei chreu ymysg ei ddisgyblion ac yn nharddiad yr Eglwys Fore yn dal mor fyw ag erioed, ac mae'n ddyletswydd arnom ni i barhau a'i waith a lledaenu'r we honno. Ni yw'r corynnod bach y mae'n dibynnu arno i ledaenu ei gariad a'i bresenoldeb ymhobman.

### Gwe fyd-eang

Mae dyletswydd arnom ni, fel Cristnogion, i fynd i ganol pobl y ddaear a lledaenu neges Crist. Er y gall wneud rhai'n anghyffyrddus, gall ein gwneud ni'n fwy tebygol o gael ein herlid, ry'm ni'n gwybod fod Duw yn Iesu Grist wrth ein hochr bob amser.

Fel y corryn bach felly, gadewch i ni lenwi pob twll a chornel o'r byd gyda gwe cariad Crist, gan sicrhau fod y byd i gyd yn cael clywed amdano, credu ynddo, a byw bob dydd gyda Christ yn ganolog i bopeth a wnawn.

**Gwennan Evans**



*Mae Gwennan yn ferch ffarm sy'n byw yn ardal Cynwyl Elfed ac yn aelod o gapel Hermon. Mae'n astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn mwynhau canu'r piano. Ffaith ddiddorol am Gwennan yw, er ei bod yn ofn corynnod, mae hi'n caru malwod!*

---

**Coleg yr Annibynwyr Cymraeg**

## Cyrsiau'r Hydref

**Defnyddio'r dechnoleg fodern yn ein haddoliad**

**7 o'r gloch, nos Fawrth 19 Hydref**
RHODRI DARCY, Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Gweinidogaethau ym mywyd yr eglwys**

**7 o'r gloch, nos Fawrth 26 Hydref - Sacrament Bedydd**

**7 o'r gloch, nos Fawrth 2 Tachwedd - Sacrament Swper yr Arglwydd**

**7 o'r gloch, nos Fawrth 9 Tachwedd - Gweinidogaeth Galar a Chynnal Angladdau**
ALED JONES, Cyfarwyddwr a Chydlynydd Hyfforddi'r Coleg

**Darllen, deall a dehongli Gair Duw heddiw**
**Astudio'r Beibl yn ein cyd-destun ni**

**7 o'r gloch, nos Lun 8 Tachwedd - Yr Her Amgylcheddol**
HEFIN JONES, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

**7 o'r gloch, nos Lun 15 Tachwedd - Testament Newydd y Beibl**
CATRIN HAF WILLIAMS, Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, PCYDDS

**7 o'r gloch, nos Lun 22 Tachwedd - Y Beibl Hebraeg**
JOHN OWAIN AB IFOR JONES, Eglwys Unedig Bute, Eglwys yr Alban

**Croeso cynnes iawn i bawb**

**Bydd pob cwrs ar-lein eleni**

Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth aled@colegyrannibynwyr.cymru

# Barn Annibynnol

## Aildanio

Sul diwethaf roeddwn yn cyd-addoli gyda ffrind coleg yng Ngwlad yr Haf. A bod yn fanwl gywir cyd wylio oedfa ar sianel YouTube Eglwys y Bedyddwyr Clarence Park, Weston-super-Mare oeddem ni. Mae'n anodd meddwl weithiau am fendithion Covid ond yn sicr mae wedi ein herio ni fel cynulleidfaoedd i wneud pethau yn wahanol sy'n gallu cynnwys pawb mewn addoliad . Yn ddiweddar cynhaliodd Clarence Park arolwg o'r trefniadau o amgylch Covid a sut i ddod â rhyw fath o normalrwydd yn ôl i'w gweithgareddau niferus ac amrywiol i bob oed. Yn syml, aildanio gwaith yr eglwys. Roedd y pregethwr gwadd y bore hwnnw yn siarad gyda ni am gael pethau a phopeth mewn lle i sicrhau y byddai yr aildanio'n llwyddo.




### Cefndir

Yng ngholeg addysg uwch Gwent yng Nghaerllion bu fy ffrind a mi gyfarfod, y ddwy ohonom yn astudio Addysg a Chrefydd, a chael cyfle gwych i astudio gyda Dr Glyndwr Harris a'r Parch. B. P. Jones a chyfraniad y ddau yn unigryw i ddatblygiad y ddwy ohonom.
Gwahanodd ein llwybrau dysgu ni wrth i mi fynd i arbenigo mewn addysg arbennig a seicoleg, a dyma fi yn eich tywys yn ôl i'r aildanio yn Clarence Park a phob Clarence Park arall gobeithio. Roedd pwyslais yr ysgol addysg arbennig yn drwm ar adnabod gwir anghenion plentyn ac yna eu galluogi drwy aml gyfrwng i ddatblygu i'w llawn botensial. Mae addysg wedi carlamu mlaen a llawer i feddwl a dull gwahanol wedi ei gyflwyno yn y 40 mlynedd diwethaf ond yr un ydy'r angen craidd. Yn wir, i ni fel Cristnogion yr un ydy'n hangen craidd ni am gariad, goddefgarwch a maddeuant trwy Iesu Grist .

### Aildanio

Pyramid Abraham Maslow oedd yn ddehongliad a ddefnyddia un o'r darlithwyr yn aml i wneud i ni feddwl am ddosbarthiad ein hanghenion – theori a gyflwynwyd gyntaf yn 1943. 'Owt of dêt?' Wel, nac ydy a deud y gwir. Dyma fo i chi:




Wrth feddwl am aildanio, gall fod y pyramid yma'n ddigon defnyddiol, wrth gwrs be sy'n taro rhywun yn syth ydy presenoldeb Duw ymhob rhan o'n hanghenion. Mae aildanio'n golygu sut i wneud pethau'n wahanol – dydy gwahanol ddim yn well bob amser ond wrth ail gydio sut ydym ni yn dod yn ôl at y pethau creiddiol.

O ran ein hanghenion sylfaenol, y pethau na fedrwn ni fyw hebddynt, 'ein bara beunyddiol,' y mae Duw yn bresennol yn darparu (Mathew pennod 6 adnod 25–34). Gallwn ni fod yn gyfrwng i ddarparu. Fel eglwysi rydym ni yn cyfrannu at fanciau bwyd, i lochesi i'r digartref a ffoaduriaid. Ydy'r eglwys yn gallu cynnig gorffwys i rai sy'n flinderog a llwythog a chysur i'r rhai sydd angen eu cysuro? *Back to basics* cyn aildanio rhaid i ni fod yn y lle iawn i symud ymlaen i wasanaethu.

### Yn y man cywir

Fel unigolion rydan ni angen bod yn y lle iawn gyda Duw. Ydy'r Eglwys yn fan diogel? Diogel o ran be sy'n digwydd ynddi o ran gweithgareddau, ei dysgeidiaeth ac yn anffodus weithiau pwy sy'n rhan o'r Eglwys, Diolch yn hynny i'r Panel Diogelu Cydenwadol am eu gwaith parhaus a phoenus weithiau i gynnal diogelwch plant ac oedolion. Mae'n rhaid i'r Eglwys sy'n aildanio fod yn fan saff i'w phobl cyn symud ymlaen i agor allan i'r byd.

### Perthyn

Mae perthyn yn bwysig – yr ymdeimlad sbesial yna o berthyn i deulu, i ffrindiau i gymdeithas i eglwys Iesu Grist. A allwn ni yn hyderus wrth aildanio fod yn sicr ein croeso yn enw Iesu Crist i unrhyw un sydd am ddod atom i addoli a chydweithio – dwi ddim yn siŵr? Plwyfol a rhagfarnllyd ydan ni i gyd weithiau.
Wrth aildanio beth am ddisgwyl llwyddiant, llwyddiant i waith ein heglwys ac efallai llwyddiant i ni yn bersonol. Beth am her newydd i ni ein hunain, rhywbeth bach fyddai gallu gwneud gwahaniaeth?

### Y sylfaen

Mi ydan ni yn gallu bod yn bobl doom and gloom, o fel hyn oedd hi ers talwm, dim fel hyn oedd pethau. Wel ia, ond fel hyn mae pethau rŵan ac yn rŵan ydan ni byw a rŵan o bosib wynebwn yr her fwyaf i lwyddo. Dim jest aildanio ond ailfeddwl am ein cyfundrefnau sy'n gwegian, ein hadeiladau beichus. Weithiau mae angen mynd 'nôl i waelod y pyramid at y sylfaen, y patrwm o ymddygiadau mae Iesu Grist ei hun wedi ei roi i ni am gariad tuag at arall yn ddiwahân.

A beth felly am dop y pyramid i wireddu ein llawn botensial fel unigolion ac eglwys i fod yn adlewyrchiad o Iesu Grist i'n byd? Dyma mewn gwirionedd ydy pinacl y pyramid – dyma aildanio'r cyfle i edrych go iawn ar botensial yr Eglwys holl gynhwysol yn ei chyfanrwydd .

Emyn olaf oedfa YouTube Sul diwethaf oedd 'I Dduw bo'r gogoniant', a'r ddwy ohonom ni o adre yn morio canu mewn dwy iaith gyda chynulleidfa a band y capel. I Dduw sy'n cyrraedd ac yn rhan o'n bywyd yn ei holl lawnder a gogoniant diolch Iddo.

Ydan ni barod i aildanio?

**Elen Vaughan**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

**EGLWYSI CYNULLEIDFAOL**

**SEION, ABERYSTWYTH A BETHEL, TAL-Y-BONT**

**CYNHELIR CYFARFOD ORDEINIO A SEFYDLU**

**MR GWILYM TUDUR,**
BA (Aberystwyth), BA MPhil (Oxon.)

YN WEINIDOG I'R ARGLWYDD IESU GRIST

DDYDD SADWRN, 30 HYDREF, AM 2.00 P.M.

YN SEION, STRYD Y POPTY, ABERYSTWYTH

*Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno â chyfeillion Seion a Bethel ar yr achlysur hwn.*

*Darperir lluniaeth yn Llety Parc, Llanbadarn wedi'r oedfa.*

*Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 bydd yn rhaid cofrestru eich bwriad i fynychu'r oedfa.*

*Gwerthfawrogir petaech yn gwneud hyn, rhwng 12–23 Hydref, trwy gysylltu â:*

Rhiannon Davies

E: Cemaes@btinternet.com

FF: 01970 615409

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

# Capel Bryngwenith, Henllan – *parhad*



*Cadeiriau yn lle meinciau a byrddau hawdd i'w symud a charped wedi ei osod ar y llawr, paent melyn llachar er codi calon.*

sedd er cof am Gino Vasami. Derbyniwyd cyfraniadau ariannol er cof am Gino a fu o gymorth i annog eraill i roddi arian er cymorth at ail wneud y festri.

### Derbyn aelod

Testun llawenydd a phleser eithriadol oedd derbyn Brenda Jones fel aelod yn ôl i'w mam eglwys yng nghapel Bryngwenith yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dod 'nôl i'w chartref ysbrydol mae Brenda ar ôl bod yn weithgar a ffyddlon tu hwn yng nghapel y Tabernacl, Pentrecagal. Ym Mryngwenith y cafodd hi ei bedyddio, ei haddysgu yn yr ysgol Sul, dod ymhen amser yn athrawes yr ysgol Sul, dysgu y Sol-ffa, organyddes, dod yn gyflawn aelod, a phriodi.

Ym Mryngwenith bu ei thad-cu Samuel Thomas, Blaenwenllan Cross a'i Thad Benjamin Elias, Cwrws yn ddiaconiaid. Yn gorffwys ym mynwent Bryngwenith ymhlith cenedlaethau o'i theulu y mae Alan ei ddiweddar briod. Felly, mae gan Bryngwenith le arbennig yn ei chalon ac mae pawb mor falch o gael Brenda yn aelod ffyddlon, yn organyddes ac un sydd gefnogol i achos Crist ym Mryngwenith.

**Carys Ann**



*Y Parchg Carys Ann a Brenda Jones*

# GWERTHU YNYS MÔN AM £62,000!

Diddorol iawn oedd darllen yr hanes yn rhifyn 9 Medi o *Y Tyst* fod llun o bentref Rhoscolyn gan Kyffin Willams wedi'i werthu'n ddiweddar am £62,000. Bûm yn ceisio dyfalu pa Annibynnwr cefnog a'i prynodd! Ond o ddarllen ymhellach, gweld mai gŵr a gafodd ei fedyddio yng nghapel Rhoscolyn a'i prynodd, felly Methodsyn, siŵr o fod!


Mae gen innau lun olew o bentref a chapel Rhoscolyn o waith y diweddar Wilf Roberts (1941–2016) a brynais yn Oriel Môn yn 2003 am £780. Er bod gennyf fwy nag un llun o waith Wilf, apeliodd y llun hwn yn arbennig ataf am mai yng nghapel Rhoscolyn yr ordeiniwyd fy nhad yn flaenor ym 1958. Rwy'n dal i ddefnyddio'r Testament Newydd a gafodd i nodi'r achlysur. A threuliodd Wilf gyfnod yn gwneud ymarfer dysgu gyda fy nhad.





Rhai blynyddoedd yn ôl euthum heibio'r hen le – y Tŷ Capel yn fwthyn gwyliau a'r seddau ar werth ('pews for sale') a'r drws coch yr oeddwn mor gyfarwydd ag o bellach yn las. Bu rhieni Wilf Roberts yn cadw Tŷ Capel, Salem, Llanfwrog, y capel lle y magwyd John Roberts, yr emynydd (1910–84).

**Menna Lloyd Williams, Aberystwyth**




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*